# Newyddion Bethlehem



www.gwe-bethlehem.org (trydar): @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Gwanwyn 2016

## Croesawu aelodau a bedyddio dau fach



***(Uchod)*** Y Parchedig Ddr R. Alun Evans yn derbyn 4 aelod newydd: Áine Edwards, Avril Pickard, Y Parch Alan Pickard a Beth Tame ar fore Sul Mawrth 19, 2016. Mae Áine wedi ei magu ym Methlehem, Avril ac Alan yn dychwelyd i'n plith o Fynydd Seion, Casnewydd, a Beth yn ymuno â ni o gapel Bethesda'r Wyddgrug.

***... ac yn ystod yr un gwasanaeth:***

***(Chwith):*** Bedydd Eluned Myfanwy, merch Alun a Holly Evans, a chwaer fach newydd Gruffudd**.**

***(Isod):*** Bedydd Steffan Moi, mab Aled a Sara Davies, a brawd bach newydd Ellis.

*[Ymhen bythefnos, yn ystod oedfa arall, roedd Alan Pickard yntau yn derbyn dau aelod newydd arall i'n plith– fel y gwelwch ar dudalen 4. ]*







**(Uchod)** Heulwen Jones yn yr heulwen yn y Gwasanaeth Gŵyl Ddewi ac Anthony Evans yn defnyddio'i bensil braslunio i greu portread sydyn ohoni. Anthony oedd un o'r pedwarawd fu'n trafod y "pethau bychain" sy'n bwysig iddyn nhw yn eu gwaith.
**(Isod)** Y tri oedolyn arall fu'n cyfrannu – (o'r chwith) Mair John a'r sgrîn preifatrwydd cyfrifiadurol, Alwyn Harding Jones a'i gwmpawd (roedd y Beibl Meicro'n rhy fach i'r camera!), a Delwyn Sion a'r bensel a'r rwber dileu! [Rhagor o luniau tu fewn – yn cynnwys y plant i gyd.]







Hefyd yn y rhifyn hwn:

- Uchafbwyntiau o'r hydref a'r uchelwyliau ym Methlehem
- Newyddion
- Manylion y Suliau

# SULIAU Ebrill – Rhagfyr 2016

**Ebrill**
3 - Y Parchg. Allan Pickard (Cymun)
10 - Y Parchg. Eirian Rees
17 - Y Parchg. Hywel Wyn Richards
24 - Oedfa Ardal dan ofal Eifion Glyn

**Mai**
1 - Y Parchg. Eirian Rees (Cymun)
8 – Emlyn Davies
15 - Gwasanaeth Cymorth Cristnogol
22 - Arwel Ellis Owen
29 - Oedfa Ardal

**Mehefin**
5 - Y Parchg. Cynwil Williams (Cymun)
12 - Oedfa dan ofal Huw a June Lloyd
19 - Oedfa Sul y Tadau
26 - Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Gorffennaf**
3 Dim Trefniant eto
10 Sul y Cyfundeb
17 - Dim trefniant eto
24 Y Parchg. Dafydd Owen
31 Yma – ac aelodau Efail Isaf yn ymuno â ni

**Cyfeiriad yr Ysgrifennydd:**
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

**Awst**
7 - Efail Isaf - Cymun
14 - Bethlehem
21 - Efail Isaf
28 - Bethlehem

**Medi**
4 - Y Parchg. Robin Samuel (Cymun)
11 - Oedfa Ardal
18 - Y Parchg. Aled Edwards
25 - Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul

**Hydref**
2 - Y Parchg. Dafydd Andrew Jones (Cymun)
9 - Oedfa Ardal
16 - Rhys ab Owen
23 - Y Parchg. Dafydd Owen
30 - Y Parchg. Ddr R. Alun Evans

**Tachwedd**
6 - Y Parchg. Ddr. John Tudno Williams (Cymun)
13 - Oedfa Ardal
20 - Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
27 - Y Parchg. Gethin Rhys

**Rhagfyr**
4 - Ymarfer Plant yn y bore - Plygain yn y nos
11 - Ymweld â Chartref Henoed
(Cymun yn y nos)
18 - Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
25 - Gwasanaeth Dydd Nadolig.




Rhan o'r gynulleidfa yn yr oedfa Gŵyl Ddewi – gweddill y lluniau ar dudalen 3.



# Côr o ddau hanner!

Ar fore Gwasanaeth Gŵyl Ddewi, er mwyn gweld pawb yn fwy eglur, rhaid oedd tynnu llun dau hanner y parti o gantorion. (Felly mae yna fantais o fod yn y canol, os ydych chi am gael eich llun ddwywaith ar yr un dudalen!) Isod, y rhai fu'n cymryd y rhannau agoriadol a Heulwen Jones, unwaith yn rhagor, yn ei rôl arferol yn goruchwylio'r cyfan.













# Gwaddol yr ymddeoliad

Mae tudalennau'r calendar arferol yn cael eu troi'n arafach ym Methlehem nac yn y byd mawr prysur tu allan.
Dyna egluro pam iddi gymryd ymron i flwyddyn wedi ymddeoliad y Parchedig Ddr. R. Alun Evans i'r eglwys drefnu eu syrpreis o gydnabyddiaeth iddo mewn oedfa. Rhwng popeth, tipyn o dasg fu comisiynu Rhys Dafis, ein cyn-ysgrifennydd, i gyfansoddi geiriau, a chael rheiny wedi eu gosod i gerddoriaeth gan ein haelod o gyfansoddwr, Ieuan Wyn, tra roedd hwnnw'n crwydro’r byd. Cafodd y cyfan wedyn eu creu’n waith celf gan y llythrenwr Ieuan Rees o Fetws, Rhydaman.
Ar y dde, gwelir Rhodri’n cyflwyno copi o'r cyfanwaith cerddorol i Ieu, y cyfansoddwr, ac yna’r gerdd wedi’i llythrennu i Alun. Áine Edwards gyflwynodd y tusw blodau i Rhiannon.
I goroni'r cyfan, (isod) roedd Côr Merched Bethlehem, dan arweiniad Delyth, wedi dysgu'r gwaith i'w ganu yn yr oedfa.
Dyma'r gerdd yn gyflawn:

**Y Bugail Da**

Buost Alun inni’n fugail da,
Â ninnau’n braidd ar wasgar ein cynefin,
Ein llwybrau ‘mhell fan draw, hyd ddôl a bryn,
Gwarchodaist ni bob un rhag ffos a dibyn,
A dangos llwybyr at y gwir Fan Gwyn.
Buost Alun inni’n fugail da.

Buost Alun inni’n fugail da,
Â ninnau’n cael ein tynnu at bob gorwel,
A’n hudo’n rhwydd gan liw a braster gwair,
Dangosaist i’n gynhaliaeth lawn daioni,
Cyflwynaist ni i rin porfeydd y Gair;
Buost Alun inni’n fugail da.

Buost Alun inni’n fugail da;
Yn fugail da, boed alar, boed lawenydd,
Boed awel fwyn neu foed drycinoedd byw,
Dy alwad ddôi i’n harwain; ninnau’n dilyn
At droed y Garth, fan hyn, i gorlan Duw;
Buost Alun inni’n fugail da,
Buost Alun inni’n fugail da.

Rhys Dafis














**Tipyn o Gamp(fa)**

Dymuniad Alun, ein cyn-weinidog, oedd i unrhyw dysteb adeg ei ymddeoliad gael ei gyfrannu at weithgareddau elusennol ym maes adfer y galon. Dyma hanes y llun uchod yng ngheiriau Alun:

“Byddaf y mynd i'r gampfa bob bore Llun a bore Gwener dan gynllun adfer y galon. Trefnwyd bod rhodd Bethlehem i'w gwario ar hyfforddi mwy o therapyddion adfer y galon ac i anfon therapyddion Caerdydd ar gyrsiau hyfforddi. Bydd Rachel Owen (sy’n derbyn y siec o £1600 o Fethlehem yn y llun uchod) yn sgrifennu at y capel i ddiolch am y rhodd. A dwi inne'n diolch (o galon!) am haelioni'r aelodau.
“Rydym yn cwrdd fel grwp yng Nghlwb Sboncen Caerdydd yn Ryder St (gyfochrog a gwaelod Heol Eglwys y Gadeirlan) lle mae cyrtiau sboncen a champfa addas.”
[Fel gwelwch, ar y chwith yn y darlun, roedd Peredur Evans, ein Trysorydd yno hefyd i’r cyflwyniad.]

# Lluniau sy'n pontio'r misoedd



*Yr haf llynedd - bore arall o fedyddio a derbyn –* ***(Chwith)*** *Bedydd Esther Gwenllian, merch Luned a David Walters, chwaer i Betsan Haf a Lea Mai. Mae'r teulu bellach yn byw dramor.*
***(Dde)*** *Derbyn dau aelod - Catrin Parry Jones (Yr Eglwys Newydd ond yn wreiddiol o Bentyrch a Bethlehem ac wedi gweithio yn America) a Lewis Masling o Bentre'r Eglwys sy'n gweithio i Nwy Prydain). Bellach mae'r ddau'n briod – llongyfarchiadau iddyn nhw. Fe'i priodwyd ym Methlehem ar Ebrill 1af, 2016.*





***(Chwith)*** *Priodas Lowri Sion a Justin John ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig ym Methlehem. Roedden nhw eisoes wedi cynnal un seremoni yn Unol Daleithau America, sef gwlad enedigol y priodfab. Dymuniadau da i'r ddau – gan obeithio na fydd llawer rhagor o oedi gweinyddol cyn caiff Lowri setlo yn ei chartref newydd yn Ohio.*

***(Isod)*** *Glenys ac Anthony Evans yn cael eu croesawu fel cyflawn aelodau newydd gan y Parchedig Alan Pickard ddechrau Ebrill 2016.*





*Mintai Bethlehem yn ystod eu hymweliad â chartref Willowbrooke cyn y Nadolig i gynnal gwasanaeth o garolau.*

## Y Cwrdd Merched



Cafwyd dechreuad cynnar i'n tymor eleni pan ddaeth Marian Evans atom i siarad ar y testun, 'Gronyn o reis a thamaid o edau'. Cawsom hanes ei thaith ddiddorol i Tseina, a gyda'r holl hanesion difyr, roedd y cyfan yn codi awydd arnom i fynd ar y daith ryfeddol yma. Yn dilyn hyn, cawsom weld gwaith cwiltio arbennig iawn gan Marian ar gyfer ei chwrs City and Guilds. O ble daw'r holl amser a'r egni?


Ym mis Hydref, cawsom bnawn hwyliog yng nghwmni Peter Thomas. Mae Peter wedi casglu myrdd o ddiarhebion am ferched. Roedd ambell ddihareb yn plesio'n fawr e.e. "Gair gwraig: gwneler" – cyngor doeth! Ond doedd ambell un ddim mor dderbyniol e.e. "Rhinwedd ar wraig yw bod yn ddistaw"!



Cafwyd arlwy cwbwl wahanol fis Tachwedd. Daeth Rachel (merch Morwen Byron) atom i siarad am fabwysiadu. Roedd hi'n agoriad llygad clywed am y broses gymhleth o fabwysiadu plentyn a chawsom ddarlun eglur gan Rachel o'r drefn fel ag y mae ar hyn o bryd.

Ar drothwy'r Nadolig cawsom gwmni Sandra Rose. Mae hi'n ferch mor ddawnus ym maes tecstiliau. Roedd yr enghreifftiau o'i gwaith cywrain yn wledd i'r llygaid a hefyd gwelsom waith rhai o'n haelodau sy'n mynychu gwersi Sandra. Penderfyniad doeth ar ran Sandra oedd dewis gwnïo yn hytrach na Lladin yn yr Ysgol Uwchradd. Diolch i bob un o'n siaradwyr.

***Marian Jones***



Mae'n werth cofnodi'r gweddnewidiad cynnil a chwaethus sydd wedi digwydd ger prif fynedfa'r capel. Bellach, mae gan bawb y dewis wrth gyrraedd – naill ai dringo'r pedair gris cerrig neu ddilyn y llwybr amgen i gyrraedd at ddrws ffrynt Bethlehem. Hefyd, mae modd i unrhyw un sy'n cael anhawster ar risiau cyffredin i esgyn o'r capel i'r festri ar gadair symud, os bydd angen am hynny.

Diolch i bawb fu'n gyfrifol am y gwaith a'r fenter.



***Cyfeiriwyd uchod at ddoniau Sandra Rose. Un bore Sul yn ddiweddar, fe ddaeth Sandra a chynnyrch prosiect mae hi wedi ei gynnal yn un o'i dosbarthiadau 'Tecstiliau Creadigol' ar gyfer elusen "Mothers of Africa". Crewyd y cwiltiau gan aelodau'r dosbarth ac fe fydd y cyfan yn rhan o ymgyrch i gasglu arian ar gyfer gwella amodau byw i ferched a'u plant yn ardaloedd tlotaf Affrica. Mae nifer o ferched Bethlehem yn mynychu'r dosbarth ac wedi creu rhai o'r sgwariau sydd yn y cwilt.***

**Os ydyn ni'n anfwriadol wedi anghofio nodi rhyw achlysur, newydd neu gyfarchion – yna rhowch wybod i unrhyw un o'r diaconiaid neu anfonwch e-bost at tycnau@aol.com.**

# ‘Bêc-off’ Eluned!




**Dydd Diolchgarwch - ac wedi’r rhagarweiniad ffurfiol y dechreuodd y sbri mawr, wrth i Eluned Davies Scott wahodd y darpar gogyddion i baratoi gwahanol fathau o gynnyrch blawd a bara. Mae’r lluniau’n dweud y cyfan!**









# Dwy dudalen i'r ´Dolig
















Drama'r geni 2015 – a phlant yr Ysgol Sul unwaith eto'n atgoffa'r oedolion pwy ydi'r sêr!




# Dwy dudalen i'r ´Dolig













**Uchod: Rhai o gyfranwyr Gwasanaeth Y Plygain**

**Isod: Cynulleidfa Oedfa bore'r Nadolig**





**Aelodau'r Drws Agored fu'n cael trafodaeth ag Ali Yassine am Islam fel rhan o'u myfyrdodau am grefyddau eraill y byd y tymor hwn.**

# Colofn yr Ysgrifennydd

Croeso i Fwletin Bethlehem unwaith yn rhagor, ac fe gytunwch fod yma ôl cribinio go helaeth ar yr hyn a fu'n digwydd dros y misoedd diwethaf yma. Mae'r lluniau niferus yn dweud eu storiâu eu hunain ac yn adlewyrchiad amlwg o'r prysurdeb, y bwrlwm a'r hwyl a fu ynghlwm wrth y gweithgarwch a fu o gyfnod yr haf y llynedd hyd y gwanwyn eleni.

Mae'n arwydd o eglwys a chymdeithas fyw, mae'n arwydd o bresenoldeb aelodau ifanc, mae'n arwydd o bontio rhwng ysgol a chapel, ac mae'n arwydd o ddyfalbarhad ffyddloniaid sydd wedi cynnal y fflam a chadw'r drws ar agor, pan mae llawer lle tebyg yn yr ardaloedd cyfagos wedi edwino a chau.

'Rydym wedi troedio'r flwyddyn ddiwethaf yma heb wasanaeth Gweinidog, er bod ein cyn-Weinidog yn aelod o hyd ac wedi llenwi pob gofyn a ddaeth i'w ran gyda'r urddas a'r brwdfrydedd heintus a berthyn iddo. Mawr ein diolch iddo am ei barodrwydd i wneud hyn. Gwn hefyd fod y Parchedig Allan Pickard, eto fel aelod y seddi cefn, yn barod ei gymwynas pan fydd angen.

Fe gynhwysir llun o'r gwaith a wnaed ar fynedfa newydd i'r capel yn y Bwletin, a'r farn unfrydol ydi bod y capel ar ei ennill o'r herwydd, ac mae'r un peth yn wir am y fynedfa i'r Festri - mae'r cyfan fel petai wedi bod yno erioed ac mae'n diolch i weledigaeth pensaer sydd wedi bod yn cadw golwg fanwl ar yr adeiladwaith ers degawdau.

Er cofiwch nad dyna'r rheswm pam fod "Pobol y Cwm" yn ddiweddar wedi dewis Bethlehem, yn hytrach na'r Tabernacl, Efail Isaf, i ffilmio golygfeydd mewnol ar gyfer y rhaglen!

A hefyd, o son am yr adeilad, fe gofiwch i Gwrdd Eglwys bleidleisio o 59 pleidlais i 3 i ganiatáu ei gofrestru ar gyfer priodasau un rhyw yn y dyfodol. Aelodau eglwys gynnes a chariadus a sicrhaodd mai dyna'r cyfeiriad priodol i'w gymryd.

Mawr yw'n dyled i bawb sy'n cefnogi Bethlehem, Gwaelod-y-garth o Sul i Sul, o fis i fis, ac o flwyddyn i flwyddyn. Heb ddycnwch unigolion, heb gefnogaeth a gwerthfawrogiad cynulleidfa, heb barodrwydd cyfeillion i lenwi'r pulpud ac arwain oedfa, fyddai dim llewyrch yma - ein cyfrifoldeb a'n braint ni ydi sicrhau fod y llewyrch hwn ar gael i'w drosglwyddo i gynulleidfaoedd y dyfodol. Daliwn ati!

*"…edrych ar y morgrugyn; astudia ei ffyrdd, a dysga sut i fod yn ddoeth. Does ganddo ddim arweinydd, swyddog, na rheolwr, ac eto mae'n mynd ati i gasglu bwyd yn yr haf, a storio'r hyn sydd arno'i angen adeg y cynhaeaf."*

Diarhebion 6, 6-8 [Beibl.net]

***Rhodri Gwynn-Jones***

## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:

- **Eirlys Lamb –** sydd wedi colli ei brawd.
- **Carol Davies Jones –** sydd wedi colli ei thad.
- **Eirian Samuel –** sydd wedi colli ei mam.
- **Esme Griffith –** sydd wedi colli ei ewythr.
- **Bethan Tame –** sydd wedi colli ei modryb.

## Rydyn ni'n falch a allu dweud bod:

- **June Huws** yn troi ar wella**.** Pob dymuniad da i ti June ac adferiad buan!
- **Stella Jones** bellach yn nain**.** Daeth merch fach i aelwyd ei mab, Geraint. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.
- **Rhodri Gwynn-Jones** sydd wedi ymddeol o'i waith bob dydd ac yn cael cyfle i ganolbwyntio'n gyfangwbl ar bethau pwysicach fel 'carco' a pharhau fel Ysgrifennydd Bethlehem!

## Rydyn ni'n dymuno'n dda i aelodau sydd wedi symud i eglwysi eraill:

- Sara Gibson, Mari a Gwen – i Gapel Seion, Aberystwyth.
- Bethan Vaughan Cartwright - i Gapel Bethel, Penarth.